

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

---

# Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/SeneddCymunedau](http://www.senedd.cymru/SeneddCymunedau)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**  
E-bost: **[SeneddCymunedau@senedd.cymru](mailto:SeneddCymunedau@senedd.cymru)**  
Twitter: **[@SeneddCLILCh](https://twitter.com/SeneddCLILCh)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd

Mawrth 2021



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddCymunedau](http://www.senedd.cymru/SeneddCymunedau)

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**John Griffiths AS**  
Llafur Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Dawn Bowden AS**  
Llafur Cymru



**Huw Irranca-Davies AS**  
Llafur Cymru



**Delyth Jewell AS**  
Plaid Cymru



**Laura Anne Jones AS**  
Ceidwadwyr Cymreig



**Mandy Jones AS**  
Grŵp y Gynghrair Annibynnol  
dros Ddiwygio

---

# Cynnwys

<b>Rhagair y Cadeirydd.....</b>	<b>5</b>
<b>1. Cylch gwaith a llwyth gwaith y Pwyllgor.....</b>	<b>6</b>
Llwyth gwaith deddfwriaethol.....	8
<b>2. Ein harferion gwaith.....</b>	<b>10</b>
Gwaith dilynol ar waith blaenorol.....	12
Gwaith ar y cyd rhwng pwyllgorau.....	13
<b>3. Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd.....</b>	<b>15</b>
Gwaith dilynol COVID-19.....	15
Cysgu ar y stryd a digartrefedd.....	15
Y sector gwirfoddol.....	16
Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.....	16
Tlodi.....	17
Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.....	17
Gwaith dilynol arall.....	17
Beichiogrwydd, mamolaeth a gwaith.....	17
Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.....	18
Tlodi yng Nghymru: Gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel.....	18
Diogelwch adeiladau mewn adeiladau preswyl uchel iawn.....	19
Gwaith arall.....	19
Cydlyniant ac integreiddio cymunedol.....	20
Ail gartrefi.....	20
Meysydd ychwanegol sydd o ddiddordeb.....	20
Craffu ar ôl deddfu.....	20
Craffu ar bolisi.....	21



## Rhagair y Cadeirydd

Rwy'n falch o waith y Pwyllgor dros y pum mlynedd diwethaf. Rydym wedi ymdrin ag ystod eang o faterion, polisi a deddfwriaeth. Rydym wedi helpu i wthio materion i fyny'r agenda wleidyddol, fel ein gwaith cynnar yn edrych ar brofiadau ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a helpodd i lywio Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Llywodraeth Cymru. Rydym wedi tynnu sylw'n gyson at yr anghydraddoldeb a'r annhegwch sy'n parhau i ddifetha ein cymunedau. Y diffyg o ran cyfleoedd a chanlyniadau cyfartal. Yr angen am strategaeth fwy cynhwysfawr sy'n canolbwyntio mwy ar fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru. Roedd y pryderon hyn yn rhan o'n gwaith dwy gydol tymor y Senedd hon, ac maent yn parhau. Rydym hefyd wedi arwain y ddadl wleidyddol gyda gwaith yn edrych ar ddatganoli budd-daliadau lles, a rhoi'r bleidlais i garcharorion. Rydym wedi dangos hyblygrwydd i ymateb i ddigwyddiadau cenedlaethol, fel ein gwaith yn edrych ar ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn yn syth ar ôl y digwyddiadau erchyll yn Grenfell; a dros y flwyddyn ddiwethaf ar effaith pandemig COVID-19.

Mae ein dull systematig o wneud gwaith dilynol wedi golygu, drwy gydol y tymor, ein bod wedi parhau i geisio cynnydd gwirioneddol ac ystyrlon i fynd i'r afael â phla cysgu ar y stryd; a chyflymu'r broses o weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Byddwn yn annog holl bwyllgorau'r Senedd yn y tymor nesaf i flaenoriaethu gwaith dilynol oherwydd gall hwn fod y dull mwyaf effeithiol o sbarduno newid.

Hoffwn ddiolch i'r holl randdeiliaid a dinasyddion sydd wedi helpu i lywio ein gwaith. Yn benodol, y dinasyddion hynny sydd wedi rhannu eu profiad byw eu hunain, sydd wedi bod yn heriol yn aml, ac wedi ymwneud ag amrywiaeth o faterion o geisio lloches; cysgu ar y stryd; cydbwysedd rhwng rianta a gwaith; ac, yn fwyaf diweddar, diogelwch byw mewn adeiladau uchel iawn. Mae'r profiad byw hwn wir yn ychwanegu haen ychwanegol at ein gwaith craffu, a'r argymhellion a wnawn ar gyfer newid. Hoffwn hefyd ddiolch i aelodau'r pwyllgor, o'r gorffennol a'r presennol, ynghyd â'n tîm ymroddedig a phroffesiynol o glercod pwyllgorau ac ymchwilyr am eu gwasanaeth a'u cefnogaeth amhrisiadwy.

### **John Griffiths AS**

Cadeirydd y Pwyllgor

## 1. Cylch gwaith a llwyth gwaith y Pwyllgor

Mae ein cylch gwaith yn eang iawn ac mae hyn yn golygu y bŵm yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r holl deddfwriaeth a drafodwyd gan y Senedd. Credwn y dylid ystyried hyn wrth lunio strwythurau a chylchoedd gwaith pwyllgorau yn y Chweched Senedd.

- 1.** Mae holl bwyllgorau'r Senedd yn y tymor cyfredol wedi cael cylchoedd gwaith eang iawn. Fodd bynnag, mae ehangder ein cylch gwaith ynghyd â'n llwyth gwaith deddfwriaethol trwm drwy gydol y Senedd hon wedi ei gwneud yn arbennig o heriol rheoli ein capasiti ar adegau penodol yn ystod tymor y Senedd hon.
- 2.** Roedd hyn yn her hefyd i'n Pwyllgor blaenorol yn y Pedwerydd Cynulliad; y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, yr oedd ei gylch gwaith hefyd yn cynnwys diwylliant, y cyfryngau, chwaraeon a'r Gymraeg. Argymhellodd yn ei adroddiad etifeddiaeth y dylid sefydlu Pwyllgor Cyfathrebu penodedig yn y Pumed Cynulliad.<sup>1</sup> Rhoddwyd yr argymhelliad hwn ar waith, a sefydlwyd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar ddechrau'r Pumed Cynulliad. Daeth elfen chwaraeon cylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn rhan o'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.
- 3.** Mae'r lleihad hwn yn y cylch gwaith i'w groesawu, ond mae wedi parhau i fod yn anhygoel o eang, ac oherwydd hynny mae wedi bod yn heriol rhoi sylw llawn i'r holl feysydd rydym yn gyfrifol amdanynt. Mae hyn cyn i ni ystyried effaith llwyth gwaith deddfwriaethol trwm, a COVID-19, ar ein rhaglen waith.

### Cylch gwaith y Pwyllgor:

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): llywodraeth leol; tai; adfywio, cydlyniant a diogelwch cymunedol; trechu tlodi; cyfle cyfartal a hawliau dynol. Ar 13 Tachwedd 2019, newidiwyd cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys y gallu i arfer y swyddogaethau nad ydynt yn rhai cyllidebol a

---

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Adroddiad Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad, Mawrth 2016



nodir yn Rheol Sefydlog 18A.2 mewn perthynas ag atebolrwydd a llywodraethu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

- 4.** Gwnaethom dynnu sylw at y mater hwn yn ein hymateb i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad a ofynnodd am ein barn ynghylch effaith unrhyw newid ym maint y Cynulliad ar y pryd ar bwyllgorau.<sup>2</sup> Mae llawer o'r hyn a nodir gennym yn y llythyr hwn, yn ein barn ni, yn parhau i fod yn berthnasol, a dylid ei ystyried wrth ddatblygu strwythurau a chylchoedd gwaith pwyllgorau yn y Chweched Senedd. Mae rhai o'r pwyntiau allweddol wedi'u nodi isod.
- 5.** Wrth edrych ar ddeddfwrfeydd eraill ar draws y DU, dim ond y Senedd sydd ag un pwyllgor sy'n cyfuno'r portffolio cydraddoldeb â'r portffolio tai a llywodraeth leol o fewn cylch gwaith un pwyllgor. Senedd yr Alban yw'r cymharydd agosaf oherwydd, fel yn y Senedd gyfredol, mae ei phwyllgorau'n craffu ar bolisi a deddfwriaeth. Rhannodd y ddwy elfen hyn o'n portffolio rhwng dau bwyllgor yn ystod sesiwn 2016 - 2021, sef y Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Chymunedau. Yn ogystal, roedd agweddau eraill ar ein gwaith yn cyd-fynd â gwaith pwyllgorau eraill yn Senedd yr Alban, er enghraifft, yn ystod ein gwaith ar ddatganoli budd-daliadau, gwnaethom gyfarfod â'r Pwyllgor Nawdd Cymdeithasol.
- 6.** Mae gan Gynulliad Gogledd Iwerddon fodel tebyg, gyda phwyllgorau yn ymgymryd â gwaith craffu ar bolisi ac ar deddfwriaeth. Unwaith eto, mae ein portffolio yn cael ei rannu rhwng dau bwyllgor; y Pwyllgor Gweithredol (sy'n cwmpasu cydraddoldeb a hawliau dynol fel rhan o'i gylch gwaith); a'r Pwyllgor Cymunedau (sy'n cwmpasu tai a llywodraeth leol).
- 7.** Mae'r gymhariaeth â San Steffan yn llai uniongyrchol, gan nad yw pwyllgorau dethol yn gyfrifol am graffu deddfwriaethol ar Filiau a gyflwynir. Fodd bynnag, mae'n werth nodi eu bod hefyd yn rhannu eu gwaith craffu ar bolisi ar gyfer materion o fewn ein cylch gwaith rhwng dau bwyllgor: Y Pwyllgor Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a'r Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb. Mae pwyllgor ychwanegol hefyd; y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol, sy'n cynnwys aelodau o bob rhan o Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.
- 8.** Rydym yn ymwybodol bod Pwyllgor Dethol ar gyfer pob adran o'r llywodraeth yn San Steffan, ac rydym yn nodi rhinweddau'r dull hwnnw. Fodd bynnag, ceir ffactorau sy'n gwneud hyn yn fwy heriol yng nghyd-destun Cymru -

---

<sup>2</sup> Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau at Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, 27 Ionawr 2020

yn bennaf am nad oes adrannau llywodraeth ar wahân yng Nghymru gydag Ysgrifennyddion Parhaol ar wahân. Mae gan Lywodraeth Cymru un Ysgrifennydd Parhaol, ond yn Whitehall, mae gan bob adran weinidogol Ysgrifennydd Parhaol sy'n gyfrifol am redeg yr adran o ddydd i ddydd. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn atebol i Senedd y DU am stiwardio cyllideb yr adran a sicrhau gwerth am arian. Gan y gall ad-drefnu gweinidogol yn aml gynnwys newidiadau sylweddol o ran cyfrifoldeb, mae strwythur o'r fath yn golygu ei bod yn fwy tebygol y gallai strwythurau pwyllgor ymddangos yn hen neu fel nad ydynt yn adlewyrchu strwythurau Llywodraeth. Fodd bynnag, gan roi hyn o'r neilltu, fel mater o egwyddor, rydym o'r farn ei bod yn gwneud mwy o synnwyr cael portffolios pwyllgorau sy'n adlewyrchiad agosach o bortffolios gweinidogol.

## Llwyth gwaith deddfwriaethol

**9.** Er gwaethaf y newid ym mhortffolio'r Pwyllgor hwn o'i gymharu â'n Pwyllgor blaenorol yn y Pedwerydd Cynulliad, mae cyfran y ddeddfwriaeth yr ydym wedi'i hystyried yn debyg; rydym wedi craffu ar 27 y cant o'r holl ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn y Senedd hon. Yn gyfan gwbl, rydym wedi ystyried 6 o'r 22 Bil a gyflwynwyd. Byddai'r ffigur hwn wedi bod yn uwch pe na bai Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018 wedi cael ei chyfeirio at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, oherwydd roeddem eisoes yn ystyried dau Fil arall ar yr un pryd pan gafodd ei chyflwyno. Roeddem hefyd yn disgwyl ystyried y Bil Partneriaethau Cymdeithasol, ond gohiriwyd cyflwyno'r Bil hwn oherwydd y pandemig. Mae cyfran uchel o'r ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn ymwneud â thai. Mae'n ymddangos yn debygol y bydd unrhyw bwyllgor sydd â thai o fewn ei gylch gwaith yn parhau i fod yn gyfrifol am ymgymryd â chryn dipyn o waith craffu deddfwriaethol yn y Senedd nesaf. Hoffem i hyn gael ei ystyried pan gytunir ar gylchoedd gwaith pwyllgorau yn y Chweched Senedd.

**10.** Mae gwaith craffu deddfwriaethol yn fusnes craidd, ond gan nad oes gennym unrhyw reolaeth dros pryd y cyflwynir Biliau, ac nid yw ein barn ar amserlennu bob amser yn cael ei gweithredu, gall fod yn anoddach i ni reoli ein llwythi gwaith ehangach, a sicrhau y gallwn ymgymryd â'r gwaith craffu ar bolisiâu efallai yr hoffem ei wneud.

**11.** Nid yw mater ein cylch gwaith eang, na'r llwyth gwaith deddfwriaethol trwm yn arbennig o broblemus ar ei ben ei hun, ond mae'r cyfuniad o'r ddau wedi ei gwneud hi'n anoddach i ni reoli portffolio mor eang.

**12.** Byddem yn ailadrodd ein galwadau yn ein llythyr at y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad y dylid ystyried llwythi gwaith deddfwriaethol wrth ddatblygu strwythurau pwyllgorau yn y Chweched Senedd.

## 2. Ein harferion gwaith

Rydym wedi datblygu nifer o ffyrdd o weithio sy'n effeithiol yn ein barn ni, a gallent fod yn ddefnyddiol i bwyllgorau'r dyfodol eu hystyried.

**13.** Yn ystod tymor y Senedd hon, rydym wedi defnyddio dulliau ffurfiol ac anffurfiol i gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phobl Cymru i lywio ein gwaith. Ar gyfer pob un o'r materion polisi a deddfwriaethol rydym wedi'u hystyried, gwnaethom ffurfio cylch gorchwyl a gofyn am farn sefydliadau neu unigolion â diddordeb. Mae pob ymchwiliad neu faes craffu ar Fil wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan, fel arfer ynghyd â chais ffurfiol am dystiolaeth ysgrifenedig, ac fe'i cyhoeddwyd drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ni a'r Senedd.

**14.** Mae'r rhan fwyaf o'n gwaith casglu tystiolaeth wedi bod drwy gyfarfodydd ffurfiol pwyllgorau, lle gwahoddwyd tystion i gyflwyno tystiolaeth i lywio ein hystyriaethau o amrywiaeth o feysydd polisi a deddfwriaeth. Cyn i'r cyfyngiadau symud ddechrau ym mis Mawrth 2020, dyrannwyd slot cyfarfod wythnosol i ni ymgymryd â'n busnes. Roedd y slotiau a ddyrannwyd bob yn ail ddydd Mercher a dydd Iau, gan ein galluogi i gyfarfod ar fore Mercher a thrwy'r dydd ar ddydd Iau, bob yn ail wythnos. Defnyddiwyd y slotiau hyn yn bennaf i gynnal cyfarfodydd ffurfiol ar ystâd y Senedd, a fynychwyd gan yr Aelodau a'r tystion a wahoddwyd yn bersonol gan amlaf; defnyddiwyd cyfleusterau fideogynadleda o bryd i'w gilydd er mwyn hwyluso presenoldeb tystion nad oeddent yn gallu dod yn bersonol.

**15.** Mae ymgysylltu â dinasyddion Cymru wedi bod yn elfen hanfodol o'n gwaith trwy gydol tymor y Senedd hon. Yn ogystal â'r sesiynau tystiolaeth ffurfiol, gwnaethom hefyd ddefnyddio dulliau anffurfiol o gasglu barn gan bobl a fyddai'n llai tebygol neu na fyddent yn gallu dod i gyfarfod ffurfiol. Gwnaethom ddyrannu rhai o'n slotiau cyfarfod yn benodol er mwyn cynnal ymweliadau anffurfiol a grwpiau ffocws i gyfarfod ag unigolion y mae meysydd polisi yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. Roedd y dulliau anffurfiol hyn yn arbennig o ddefnyddiol i glywed gan bobl â phrofiad byw fel rhan o'n gwaith ar roi'r bleidlais i garcharorion, cysgu ar y stryd, a ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Defnyddiwyd arolygon ar-lein hefyd i gasglu barn cynulleidfa ehangach, na fyddent efallai wedi ymateb i'r galwadau ffurfiol am dystiolaeth ysgrifenedig.

**16.** Mae cyfraniad dinasyddion at y gwaith hwn wedi llywio ein dewis o ran gwaith, argymhellion ac allbynnau yn uniongyrchol. Er enghraifft, yn ystod ein gwaith craffu ar gysgu ar y stryd, ar ôl ymgysylltu'n helaeth â phobl â phrofiad byw,

gwnaethom gynnal ymchwiliad penodol pellach i broblemau pobl sy'n cysgu ar y stryd sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Ni fyddem wedi canolbwyntio ar y materion penodol hyn heb glywed yn uniongyrchol gan y rhai sydd â'r profiad byw. Mae ein gwaith ymgysylltu â dinasyddion wedi bod yn agwedd arbennig o werthfawr ar ein gwaith drwy gydol y tymor hwn. Rydym yn gobeithio adeiladu ar hyn yn ystod tymor nesaf y Senedd.

**17.** Mewn ymateb i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol a ddechreuodd ym mis Mawrth 2020, gwnaethom addasu ein ffyrdd o weithio er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd yn rhithwir. Mae ein holl gyfarfodydd ers hynny wedi bod yn gwbl rithwir, gydag Aelodau, staff a thystion yn mynychu o wahanol leoliadau.

**18.** Fe wnaeth hyn ein galluogi i barhau â'n gwaith, a dechreuon ni drwy gynnal ymchwiliad i effaith COVID-19 ar faterion yn ymwneud â'n portffolio. Gwnaethom ddefnyddio Zoom i gynnal cyfarfodydd ffurfiol pwyllgorau gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau allanol. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom hefyd gynnal gwaith craffu Cyfnod 2 ar ddau Fil. Cafodd trafodion Cyfnod 2 eu cynnal o bell hefyd, ond mynychodd y Cadeirydd a'r Clerc o'r un lleoliad yn Nhŷ Hywel er mwyn darparu cyngor gweithdrefnol.

**19.** Mae ein defnydd o'r cyfleusterau hyn wedi dangos y gall busnes ffurfiol y Senedd barhau hyd yn oed pan na all Aelodau fod yn yr un lleoliad yn gorfforol, ac mae'n pwysleisio manteision ehangach mynychu o bell ar gynyddu cyfranogiad mewn busnes.

**20.** Roedd ein gwaith cyn y pandemig ar gynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y gallai mynychu o bell mewn cyfarfodydd ffurfiol ei wneud o ran galluogi ystod ehangach o bobl i gymryd rhan mewn [llywodraeth leol](#).<sup>3</sup> Ers mis Mawrth 2020, mae natur rithwir holl fusnes y Senedd wedi profi bod mynychu o bell mor effeithiol â mynychu cyfarfod yn gorfforol. Mae hefyd wedi dod â manteision ychwanegol o ganlyniad i beidio ag angen teithio, fel gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, mwy o amser ar gyfer cyfrifoldebau gofalu, a'r gallu i gymryd rhan mewn ystod ehangach o gyfarfodydd. Rydym wedi croesawu'r ffordd newydd hon o weithio ac rydym yn credu y dylid sicrhau rôl ehangach i fynychu o bell mewn cyfarfodydd pwyllgorau'r Senedd pan gaiff y cyfyngiadau eu codi.

---

<sup>3</sup>[Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Amrywiaeth ym maes llywodraeth leol, Ebrill 2019](#)

**21.** Rydym hefyd wedi gallu defnyddio cyfleusterau Zoom a Microsoft Teams i barhau â'n gwaith ymgysylltu â dinasyddion yn ystod y pandemig. Roedd natur ein gwaith wrth geisio deall goblygiadau COVID-19, yn enwedig pan wnaethom ystyried yr effaith ar y sector gwirfoddol, yn golygu ei bod yn hanfodol i ni allu clywed gan bobl â phrofiad uniongyrchol. Rydym bob amser wedi teimlo bod grwpiau ffocws yn fforwm defnyddiol i gasglu'r safbwyntiau hyn, felly yn lle teithio i gwrdd â phobl o bob rhan o Gymru, gwnaethom gynnal y rhain trwy Microsoft Teams.

**22.** Roedd y manteision ehangach o gynnal y cyfarfodydd hyn yn rhithwir yn amlwg i'r Aelodau a'r cyfranogwyr; yn lle teithio i leoliad penodol i gwrdd wyneb yn wyneb, roedd cyfranogwyr yn gallu cyfrannu o'u cartrefi neu swyddfeydd eu hunain, ac roedd hyn yn llawer mwy cyfleus i bawb a gymerodd ran. Mae ymgysylltu wyneb yn wyneb fel arfer yn darparu buddion ehangach na chyfarfod â dinasyddion yn unig, megis drwy fod yn dyst i brosiectau uniongyrchol, felly bydd yn bwysig bod pwyllgorau yn parhau i hwyluso cyfarfodydd o'r fath pan fydd y cyfyngiadau'n caniatáu. Fodd bynnag, o ystyried eu manteision o ran galluogi cyfranogiad ehangach, dylid gwneud mwy o ddefnydd o gyfarfodydd rhithwir hefyd fel rhan o ddull cymysg ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion yn y dyfodol.

## Gwaith dilynol ar waith blaenorol

**23.** Fe wnaethom benderfynu yn gynnar yn nhymor y Senedd mai craffu ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu ein hargymhellion fyddai yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau bod newid yn digwydd o ganlyniad i'n gwaith. Mae gwaith dilynol o'r fath wedi bod yn rhan annatod o'n gweithgareddau drwy gydol y Senedd hon.

**24.** Ein maes gwaith cyntaf yn 2016 oedd craffu ar ôl y broses ddeddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a oedd yn canolbwyntio ar ba un a oedd y Ddeddf honno'n gweithio.<sup>4</sup> Ers hynny, gwnaethom barhau i adolygu'r ddeddfwriaeth o bryd i'w gilydd trwy gynnal sesiynau tystiolaeth pellach yn 2018 a 2020 i asesu'r cynnydd a wnaed. Roedd hyn yn rhan bwysig o'n gwaith wrth ystyried effaith pandemig COVID-19 ar y gwahanol agweddau o fewn ein cylch gwaith.

---

<sup>4</sup>Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, A yw Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gweithio? Rhagfyr 2016

**25.** Cyhoeddwyd ein hadroddiad cyntaf ar gysgu ar y stryd ym **mis Ebrill 2018**<sup>5</sup>, ac ers hynny rydym wedi gwneud gwaith dilynol helaeth i asesu cynnydd a sicrhau bod newidiadau'n cael eu gweithredu. Fel rhan o hyn, rydym wedi parhau i bwysu am y newid sylweddol a oedd yn angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn cyflawni ein huchelgais i roi terfyn ar gysgu ar y stryd. Cyhoeddwyd adroddiad dilynol gennym a oedd yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ymhlith pobl sy'n cysgu ar y stryd ym mis **Rhagfyr 2019**.<sup>6</sup> Roedd hwn yn faes blaenoriaeth i ni drwy gydol y Senedd hon a gwnaethom barhau i graffu ar Lywodraeth Cymru ynghylch y mater, gan gynnwys drwy ein gwaith ar effaith COVID-19.

**26.** Ers trychineb Grenfell, mae diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn wedi bod yn faes blaenoriaeth i'n gwaith. Gwnaethom ddechrau ar ein gwaith drwy ymchwilio i ddiogelwch **adeiladau uchel iawn yn y sector cymdeithasol**. Gwnaethom ddilyn hyn trwy edrych ar adeiladu'r sector preifat<sup>7</sup>, a'n darn sylweddol olaf o waith ar ddiwedd y Senedd hon, sef ymateb i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru - Adeiladau mwy diogel yng Nghymru.

**27.** Credwn fod ein hymrwymiad i wneud gwaith dilynol ar waith blaenorol wedi bod yn effeithiol iawn o ran sicrhau bod y materion hynny'n parhau i gael y ffocws sydd ei angen i arwain at newid. Trwy barhau i fynd ar drywydd y materion hyn gwnaethom ddangos i Lywodraeth Cymru nad yw ein gwaith yn dod i ben ar ôl cyhoeddi adroddiad a'n bod yn disgwyl gweld newidiadau o ganlyniad i'n hargymhellion. Cyflawni gwaith dilynol yn y ffordd hon yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o graffu ar bolisiau a gweithredoedd Llywodraeth Cymru, a chredwn y dylai'r dull hwn gael ei ymgorffori yn arferion gwaith pwyllgorau'r dyfodol.

## Gwaith ar y cyd rhwng pwyllgorau

**28.** O ystyried y gorgyffwrdd rhwng cylch gwaith gwahanol bwyllogorau, rydym wedi gwneud gwaith ar y cyd ag eraill lle bo hynny'n briodol. Fe wnaethom gynnal cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a oedd yn arbennig o werthfawr o ran dod â gwahanol safbwyntiau ynghyd i graffu ar sut mae effaith penderfyniadau cyllidebol yn cael eu hasesu. Cafodd yr argymhellion

<sup>5</sup>Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Bywyd ar y strydoedd: atal a mynd i'r afael â chysgu ar y stryd yng Nghymru, Ebrill 2018

<sup>6</sup>Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Gwaith dilynol ar gysgu ar y stryd: Gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, Rhagfyr 2019

<sup>7</sup>Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn (sector preifat), Tachwedd 2018

a wnaethom yn ein hadroddiad eu hystyried ymhellach gan dri phwyllgor yn ystod ein gwaith craffu ar y cyllidebau drafft ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

**29.** Gwnaethom ganfod fod y dull gweithredu ar y cyd hwn yn effeithiol a chredwn y gallai fod rôl fwy amlwg i bwyllgorau ei chwarae wrth weithio gyda'i gilydd ar faterion o ddiddordeb, yn enwedig os yw'r cylchoedd gwaith yn aros yn eang yn y Chweched Senedd. Nid yw gwaith ar y cyd wedi bod yn hawdd ei hwyluso bob amser pan ddyrennir slotiau cyfarfod penodol i bwyllgorau, sy'n anodd gwro oddi wrthynt. Fodd bynnag, gallai dull mwy hyblyg o drefnu cyfarfodydd, megis rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio ffurfiau rhithwir neu hybrid, ein galluogi i ddefnyddio cyfarfodydd ar y cyd yn amlach yn y dyfodol.



### 3. Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd

Mae effaith y pandemig wedi golygu nad ydym wedi gallu ymgymryd â'r holl waith y byddem wedi dymuno. Hefyd, mae rhai materion rydym o'r farn y byddai'n fuddiol cynnal gwaith craffu arnynt yn ystod y Senedd nesaf.

**30.** Mae effaith gyfunol y pandemig a'r llwyth gwaith deddfwriaethol wedi golygu nad ydym wedi gallu gwneud yr holl waith yr ydym wedi penderfynu ei wneud. Mae rhywfaint o hyn yn waith dilynol ac mae rhai darnau newydd. Rydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol pe bai pwyllgor/pwyllgorau olynol yn y dyfodol yn ystyried edrych ar y materion hyn yn fanylach.

#### Gwaith dilynol COVID-19

##### Cysgu ar y stryd a digartrefedd

---

**31.** Mae digartrefedd, ac yn enwedig cysgu ar y stryd, wedi bod yn flaenoriaeth i ni drwy gydol tymor y Senedd hon, ond fe ddaeth yn fwy amlwg pa mor bwysig yw mynd i'r afael â'r mater hwn yn ystod pandemig COVID-19. Gwnaethom graffu ar weithredoedd Llywodraeth Cymru yn ein sesiwn graffu gyntaf gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ym mis Mai 2021, a gwneud gwaith dilynol ar hyn tan ein cyfarfod olaf ym mis Mawrth 2021. Rydym yn croesawu'r ffocws a roddwyd i'r mater hwn gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod llety'n cael ei ddarparu ar gyfer y rhai mewn angen. Rydym yn canmol y gwaith rhagorol a wnaed yn y sector i roi cartref i dros 7000 o bobl ers dechrau'r pandemig, ond credwn yn gryf bod angen i'r gwaith hwn barhau er mwyn atal pob math o ddigartrefedd. Rydym yn ymwybodol bod rhai o'r rhai a gafodd lety dros dro bellach yn ôl ar y stryd. Er bod y nifer yn is na chyn y pandemig, rydym yn dal i bryderu y gallai'r nifer barhau i gynyddu os nad ydym yn canolbwyntio'n barhaus ar y gwasanaethau sydd eu hangen.

**32.** Rydym yn arbennig o bryderus y gallai nifer y bobl ddigartref gynyddu'n sylweddol pe bai'r amddiffyniadau cyfredol sy'n cyfyngu ar droi allan ac yn ymestyn cyfnodau rhybudd yn dod i ben. Gwnaethom godi hyn gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 11 Mawrth 2021, a chadarnhaodd [Datganiad Cabinet](#) dilynol ar 17 Mawrth y byddai'r amddiffyniadau yn aros yn eu lle tan ddiwedd Mehefin 2021. Rydym yn croesawu'r estyniad hwn, ond credwn y dylid monitro'r

sefyllfa i asesu a oes angen estyniad pellach. Rydym yn argymhell y dylai ein pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd barhau i graffu ar effaith COVID-19 ar ddiartrefedd fel mater o flaenoriaeth frys.

### Y sector gwirfoddol

---

**33.** Gwnaethom gynnal ymchwiliad byr i effaith y pandemig ar y sector gwirfoddol. Amlygodd ein hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021 y rôl hanfodol yr oedd y sector gwirfoddol wedi'i chwarae wrth ymateb i'r pandemig. Gwnaethom nifer o argymhellion, gan gynnwys ynghylch seilwaith y sector gwirfoddol yng Nghymru; adnoddau a chyllid; y sector gwirfoddol BAME a'r rôl y gall y sector ei chwarae wrth adfer yn sgil COVID-19. Cawsom ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion yn ystod wythnos olaf busnes y pwyllgorau. Gwnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn neu dderbyn mewn egwyddor pob un o'n hargymhellion.<sup>8 9</sup> Rydym yn credu y dylai pwyllgor yn y dyfodol ystyried ac adolygu'r modd y caiff yr argymhellion hyn eu gweithredu.

### Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol

---

**34.** Yn dilyn oedi oherwydd effaith y pandemig, cychwynnwyd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ddiwedd mis Mawrth. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus rhestredig ystyried sut y gall eu penderfyniadau strategol sicrhau gwell canlyniadau i bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Trwy amrywiol agweddau ar ein gwaith yn ystod y Senedd hon, rydym wedi galw dro ar ôl tro am gychwyn y ddyletswydd. Yn ein hadroddiad ar effaith COVID-19 ar anghydraddoldebau, gwnaethom argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gadw at ysbryd a bwriad y ddyletswydd fel rhan o'i holl benderfyniadau nes iddi gael ei chychwyn, a datblygu trefniadau dros dro i fonitro sut mae'n bodloni ysbryd y ddyletswydd cyn cychwyn pob rhan ohoni.

**35.** Credwn y dylai'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fod yn un o'r arfau allweddol yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru i ailadeiladu yn dilyn COVID-19. Felly, rydym yn argymhell i'n pwyllgor olynol y gallai hwn fod yn faes blaenoriaeth gynnar, yn benodol o ran sut neu a yw'r ddyletswydd wedi dylanwadu ar benderfyniadau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau rhestredig.

---

<sup>8</sup>Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Effaith COVID-19 ar y sector gwirfoddol, Chwefror 2021

<sup>9</sup>Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar effaith COVID-19 ar y sector gwirfoddol, Mawrth 2021

---

---

## Tlodi

---

**36.** Mae nifer yr achosion o dlodi yng Nghymru a'u heffaith wedi bod yn faes sy'n peri pryder sylweddol i ni, a'r pwyllgor blaenorol. Rydym wedi dadlau dro ar ôl tro dros yr angen am strategaeth drawsbynciol a chynhwysfawr i fynd i'r afael â thlodi, gyda thargedau clir, diffiniadau o'r hyn y gellir ei gyflawni, a cherrig milltir y gellir asesu cynnydd yn eu herbyn. Mae wedi bod yn destun siom nad yw hyn erioed wedi cael ei dderbyn na'i weithredu gan Lywodraeth Cymru. Trafodwyd effaith COVID-19 ar bobl ar incwm isel yn ein hadroddiad ar y pandemig, Amlygu'r Materion.<sup>10</sup> Gwnaethom dynnu sylw at y ffaith bod tlodi wedi bod yn ffactor allweddol yn y pandemig, o gyfraddau marwolaethau i'r risg o golli gwaith neu incwm, a chyrhaeddiad addysgol i dai gorlawn. Rhaid i'r effaith ar gartrefi incwm isel fod yn ystyriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru yn ei chynlluniau ar gyfer adfer, ac rydym yn argymhell bod ein pwyllgor olynol yn parhau i flaenoriaethu dull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â thlodi.

## Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

---

**37.** Mae effaith COVID-19 ar bobl o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi bod yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae wedi bod yn faes ffocws yn ein gwaith COVID-19. Argymhellodd adroddiad yr Athro Ogbonna y dylai Llywodraeth Cymru ailddechrau gwaith ar ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar unwaith. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori erbyn diwedd mis Mawrth 2021, ac rydym yn argymhell bod ein pwyllgor olynol yn blaenoriaethu craffu ar gynnydd wrth ddatblygu'r cynllun a gweithredu ei gamau.

## Gwaith dilynol arall

### Beichiogrwydd, mamolaeth a gwaith

---

**38.** Fel yr ydym wedi amlinellu uchod, nodwedd allweddol o'n dull gweithredu oedd gwneud gwaith dilynol rheolaidd ar gynnydd o ran gweithredu ein hargymhellion. Fel rhan o'n gwaith yn nhymor olaf y Senedd hon, gwnaethom gytuno i wneud gwaith dilynol ar ein hymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith. Ym mis Medi 2018 gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad.<sup>11</sup> Fodd bynnag, ar adeg ei gyhoeddi, roedd Llywodraeth Cymru wrthi'n gwneud nifer o ddarnau

---

<sup>10</sup> Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Amlygu'r Materion: angydraddoldeb a'r pandemig, Awst 2020

<sup>11</sup> Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Wrth eich gwaith: rhianta a chyflogaeth yng Nghymru, Gorffennaf 2018

gwahanol o waith, megis yr adolygiad o gydraddoldeb rhywiol; y Comisiwn Gwaith Teg; ac adolygiad o gaffael cyhoeddus, a allai effeithio ar y broses o weithredu rhai o'r argymhellion. Mae'n amlwg hefyd bod y pandemig wedi cael effaith ar y rhai sy'n cydbwysu gwaith a gofal plant. Roeddem wedi bwriadu ailedrych ar yr argymhellion trwy sesiynau tystiolaeth lafar ac ymgysylltu â dinasyddion. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud a ddechreuodd ddiwedd mis Rhagfyr, bu'n rhaid i ni ailystyried ein rhaglen waith, a gohirio'r gwaith hwn.

**39.** Felly, rydym o'r farn y byddai'n werthfawr iawn edrych ar y mater hwn yn fanylach ar ddechrau'r Senedd nesaf.

### Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

---

**40.** Gwnaethom gymryd ystod o dystiolaeth a oedd yn edrych ar strwythur, llywodraethu, adnoddau, ac arfer gorau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2018. Ni wnaethom gyhoeddi adroddiad, wrth iddi ddod yn amlwg ei bod yn anodd dod i gasgliadau am eu heffeithiolrwydd bryd hynny. Gwnaethom ymrwymo i ailedrych ar hyn tuag at ddiwedd tymor y Senedd, unwaith y gellid gwneud asesiad arall o effeithiolrwydd y cynlluniau llesiant, a sut yr oeddent yn gweithio.

**41.** Yn anffodus, oherwydd effaith y pandemig, nid oeddem yn gallu ymgymryd â'r gwaith hwn yn ôl y bwriad. Fodd bynnag, rydym wedi trafod gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn fras mewn ystod o waith polisi arall, gan gynnwys edrych ar effaith COVID-19 ar y sector gwirfoddol, a gwaith craffu cyffredinol ar COVID-19. Rydym hefyd yn nodi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ddiwedd y Senedd hon sy'n edrych ar y rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus.<sup>12</sup> Un o'r materion a amlygwyd yn ystod ein sesiynau tystiolaeth oedd y dirwedd gymhleth y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio oddi mewn iddi. Maent yn eistedd ochr yn ochr â llu o bartneriaethau statudol ac amlasiantaethol, a ffurfiwyd ar sail leol, isranbarthol a rhanbarthol. Credwn fod hwn yn fater a fyddai'n haeddu ystyriaeth bellach yn y Senedd nesaf.

### Tlodi yng Nghymru: Gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel

---

**42.** Roedd hwn yn ddarn eang o waith a gyhoeddwyd gennym ym mis Mai 2018, a oedd yn ymdrin â meysydd fel dull strategol Llywodraeth Cymru o ran datblygu

---

<sup>12</sup>Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y stori hyd yma, Mawrth 2021

economaid; cyflogadwyedd; caffael; tâl; ansawdd gwaith a budd-daliadau.<sup>13</sup> O ganlyniad i'r adroddiad hwn, gwnaethom waith manwl pellach yn edrych ar ddymunoldeb datganoli budd-daliadau lles.<sup>14</sup> Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu ailedrych ar weddill y gwaith oherwydd y pandemig. Fel gyda'r ymchwiliad i feichiogrwydd, mamolaeth a gwaith, roedd nifer o ffrydiau gwaith parhaus yn digwydd o fewn Llywodraeth Cymru ar adeg yr ymateb. Roedd y rhain yn cynnwys yr Adolygiad Caffael, datblygu'r dull o ymdrin ag Economi Sylfaenol; a'r Comisiwn Gwaith Teg, y bydd pob un ohonynt wedi cael effaith ar fynd i'r afael â'r materion y gwnaethom dynnu sylw atynt yn yr adroddiad. Credwn fod hwn yn faes gwaith pwysig i bwyllgor yn y dyfodol.

### Diogelwch adeiladau mewn adeiladau preswyl uchel iawn

**43.** Rydym wedi bod yn ystyried y mater pwysig hwn ers y digwyddiadau trychinebus yn Grenfell yn 2017. Rydym wedi edrych ar y mater mewn perthynas â thai yn y sector cymdeithasol a phreifat, ac arweiniodd hyn at ein hymateb diweddar i'r ymgynghoriad i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar ddiogelwch adeiladau. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o ymrwymadau y tu allan i'r Papur Gwyn, gan gynnwys sefydlu cronfa adfer adeiladau a fydd yn mynd "ymhellach na'r hyn a gynigir yn Lloegr".<sup>15</sup>

**44.** Disgwylir y bydd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno yn y Senedd nesaf i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Credwn ei bod yn hanfodol bod y pwyllgor perthnasol yn parhau i fonitro'r materion hyn yn ofalus, yn enwedig yr heriau sy'n wynebu'r rhai sy'n byw ac yn berchen ar fflatiau o fewn y stoc bresennol o adeiladau preswyl uchel iawn ledled Cymru.

### Gwaith arall

**45.** Mae dau ymchwiliad yr oeddem wedi nodi yr hoffem eu cynnal yn y Senedd hon, ond nid ydym wedi gallu gwneud hynny. Credwn fod y ddau o'r rhain yn bwysig iawn, ac y dylai pwyllgor olynol eu hystyried yn fanylach.

<sup>13</sup> Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel. Mai 2019

<sup>14</sup> Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: opsiynau i'w cyflawni'n well. Hydref 2019

<sup>15</sup> Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch yr ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn yng Nghymru. 16 Mawrth 2021

## Cydlyniant ac integreiddio cymunedol

---

**46.** Yn ystod tymor y Senedd ac yn enwedig cyn i'r pandemig byd-eang daro, roeddem yn pryderu am rai o'r adroddiadau a oedd yn awgrymu bod y digwyddiadau gwleidyddol ehangach wedi effeithio ar gydlyniant cymunedol, megis y refferendwm ar aelodaeth o'r UE. Roedd yn fater y gwnaethom sôn amdano fel rhan o'n gwaith yn edrych ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru, a theimlwyd bod hynny'n haeddu ymchwiliad pellach. Trwy gydol y Senedd hon rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddiweddarau ei chynllun cyflawni cydlyniant cymunedol, yr oedd wedi ymrwymo i'w wneud ddwywaith o'r blaen, yn 2017 a 2018. Er ein bod yn croesawu gwaith parhaus i ddiweddarau'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, rydym yn dal i gredu y dylai'r maes ehangach o gydlyniant ac integreiddio cymunedol fod yn fater o flaenoriaeth uchel i'r Senedd nesaf.

**47.** Yn anffodus, wrth i'r pandemig daro, bu'n rhaid i ni ail-lunio ein rhaglen waith, ac nid oeddem yn gallu ymgymryd â'r gwaith hwn.

### Ail gartrefi

---

**48.** Yn 2018, gwnaethom nodi dau ymchwiliad yn ymwneud â thai i'w cynnal; sef eiddo gwag, ac ail gartrefi. Gwnaethom gwblhau'r gwaith ar eiddo gwag, ond roedd ein hymrwymiaadau deddfwriaethol yn golygu nad oeddem yn gallu edrych ar fater ail gartrefi.

**49.** Er bod "ardaloedd arbennig" penodol y mae'r mater hwn yn effeithio arnynt yn fwy difrifol, rydym yn ymwybodol bod hyn yn effeithio ar y stoc dai sydd ar gael mewn sawl ardal, a'i fod yn effeithio'n ehangach ar gymunedau ac unigolion. Felly, rydym o'r farn y byddai'n werthfawr gwneud gwaith pellach mewn perthynas â hyn yn y Senedd nesaf.

## Meysydd ychwanegol sydd o ddiddordeb

### Craffu ar ôl deddfu

---

**50.** Mae amrywiaeth o faterion eraill sy'n bwysig yn ein barn ni, ac efallai y bydd pwyllgorau'r dyfodol yn dymuno eu hystyried. Yn benodol, teimlwn fod manteision gwirioneddol i bwyllgorau yn y Chweched Senedd wneud mwy o waith craffu ar ôl deddfu. Dyma oedd ein dull gweithredu yn ein hymchwiliad sylweddol cyntaf – ar Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a

Thrais Rhywiol (Cymru) 2015<sup>16</sup>, gwaith y gwnaethom barhau i'w ddilyn drwy gydol tymor y Senedd.

**51.** Mae craffu ar ôl deddfu yn faes craffu pwysig, os weithiau, sy'n cael ei anwybyddu. Mae nifer o feysydd gwaith a fyddai o fudd iddo yn ein barn ni. Yn benodol, cafwyd nifer o ddarnau arwyddocaol o ddeddfwriaeth tai:

- Deddf Tai (Cymru) 2014 - yn enwedig y cynllun cofrestru a thrwyddedu landlordiaid ac asiantau;
- Effaith Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018;
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - yn enwedig edrych ar Ran 2 (cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol); 4 (gweithredwyr, aelodau a swyddogion awdurdodau lleol); 5 (cydbwyllgorau corfforedig) a Rhan 6 (perfformiad a llywodraethu).

**52.** Efallai y bydd pwyllgor yn y dyfodol hefyd am adolygu gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. Nid yw'r ddeddfwriaeth hon wedi ei chychwyn eto, er iddi gael ei phasio bum mlynedd yn ôl. Yn ystod y Senedd hon, rydym wedi ystyried dwy Ddeddf arall a ddiwygiodd Ddeddf 2016. Dylai'r ystyriaeth o ran gweithredu deddfwriaeth 2016 hefyd ystyried y newidiadau a gyflwynir gan y ddwy Ddeddf hyn, mewn perthynas â gwahardd ffioedd asiantau gosod; a chyflwyno cyfnodau rhybudd dim bai hirach.

## Craffu ar bolisi

---

**53.** Mae ystod o faterion eraill rydym yn credu y byddai'n fuddiol cynnal gwaith craffu pellach arnynt yn y Chweched Senedd.

- Modelau amgen o ddarparu gwasanaethau mewn llywodraeth leol;
- Agenda trawsnewid mewn llywodraeth leol - digidol;
- Adfer ar ôl y pandemig - gwasanaethau llywodraeth leol;
- Cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr adolygiad o gydraddoldeb rhywiol;

---

<sup>16</sup> Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, A yw Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gweithio? Rhagfyr 2016

- Anghydraddoldebau economaidd rhanbarthol a chymunedau sydd 'wedi cael eu gadael ar ôl'. Dylai hyn gwmpasu'r cymunedau diwydiannol a'r heriau penodol a wynebir o ran symudedd cymdeithasol mewn cymunedau sydd wedi profi gostyngiad tymor hir mewn cyfleoedd addysg a chyflogaeth;
- Tlodi - cyflwyno rhaglenni gwrth-dlodi yn lleol yng Nghymru wedi'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf;
- Lleihau aflonyddu rhywiol/gwella diogelwch menywod; ac
- Argaeledd mannau chwarae at bob tywydd ar gyfer plant a phobl ifanc.